LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Daniel Thomas

LLEOLIAD: Gaerwen, Ynys Môn

Y SWYDD: Busnes Cymru – Ymgynghorydd Datgarboneiddio

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Roeddwn i yn gwybod byswn i eisiau dychwelyd i Gymru i fyw a gweithio. Ar ôl gweithio yn Llundain am gyfnod yn y maes datgarboneiddio, mi wnes i a fy mhartner benderfynu bod hi'n amser dod yn ôl.

Pan welais i'r cyfle fel Ymgynghorydd Datgarboneiddio drwy elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol, roedd yn edrych fel y cam perffaith ac yn gyfle nid yn unig i symud yn ôl i Gymru, ond i ddatblygu fy sgiliau a chefnogi busnesau Cymreig ar yr un pryd.

Ges i hefyd gefnogaeth ariannol gan gynllun ARFOR i symud, roedd y cyllid yn hanfodol i helpu gyda chostau symud a byw, ac yn rhoi'r sicrwydd roedd ei angen arna ni i wneud y penderfyniad mawr yma.

BETH FUES TI'N EI WNEUD?

Mae fy rôl o ddydd i ddydd yn amrywiol. Yn fras, dwi'n helpu busnesau ar draws Cymru i ddarganfod ffyrdd o ddatgarboneiddio a gwella cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys ffeindio grantiau cefnogi a chreu cynlluniau i leihau allyriadau carbon. Y gobaith wedyn ydy bod y busnesau yma yn gallu bod yn fwy cystadleuol ac ennill busnes newydd drwy fod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Rydw i'n falch o'r llwyddiannau dwi wedi eu cael drwy'r swydd hyd yn hyn. Dwi wedi gallu helpu nifer o fusnesau a mae hynny'n neud fi deimlo yn falch. O'r swydd, dwi wedi gallu helpu sefydliadau cymunedol a busnes lleol oedd angen cymorth i gael mynediad i grantiau. Er enghraifft, mi wnes i helpu Clwb Rygbi Llangefni i gael arian i osod paneli solaryn ogystal â chynorthwyo busnes bach arall i ddatblygu cynllun lleihau carbon a arweiniodd atyn nhw'n ennill tendr gyda'r Bwrdd Iechyd. Rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosib heb y cynllun.

Heb Llwyddo'n Lleol, fyddai'r cyfle hwn i ddod adra ddim wedi bod yn bosib i mi. Roedd y cymorth ariannol a'r gefnogaeth yn hanfodol wrth helpu fi a'r teulu i symud yn ôl i Gymru a chael swydd dwi'n angerddol amdani. Yn y dyfodol, dwi'n gobeithio parhau i ddatblygu fy sgiliau drwy hyfforddiant pellach, ac yn y tymor hir, fy nod yw gweithio mewn rôl wleidyddol lle gallaf ddylanwadu ar bolisïau ynni a newid hinsawdd.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government